**Rebecca Evans AS/MS**
**Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol**
**Minister for Finance and Local Government**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: MA/RE/1163/22

Peredur Owen Griffiths, AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Cyllid
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

11 Mai 2022

**BIL DEDDFAU TRETHI CYMRU etc. (PŴER I ADDASU)**

Annwyl Peredur

Diolch ichi unwaith eto am ystyried Bil Deddfau Trethi Cymru etc. (Pŵer i Addasu) yn ystod Cyfnod 1. Rwy'n falch bod egwyddorion cyffredinol y Bil wedi'u cytuno, ac yn hyn o beth, rwy'n diolch i'ch Pwyllgor am eu hargymhellion.

Yn ystod y ddadl ar yr Egwyddorion Cyffredinol ar 26 Ebrill, rhoddais gadarnhad y byddwn yn rhoi ymateb manwl i adroddiad Cyfnod 1 eich Pwyllgor a'i 11 o argymhellion. Rwyf wedi nodi fy ymateb i'r argymhellion isod, gan gynnwys manylion ynglŷn â lle rwy'n cytuno bod angen cyflwyno gwelliannau i'r Bil. Rwyf eisoes wedi cyflwyno un gwelliant gan y Llywodraeth, a byddaf yn cyflwyno gwelliannau pellach cyn diwedd y cyfnod cyflwyno.

Gobeithiaf fod yr wybodaeth sydd wedi'i hamgáu yn gymorth i lywio'ch gwaith craffu ymhellach wrth i'r Bil ddatblygu drwy Gyfnod 2. Edrychaf ymlaen at barhau i weithio gydag aelodau'r Pwyllgor yn y dyfodol ar fanylion y ddeddfwriaeth.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at Gadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad.

Rebecca Evans.

**Rebecca Evans AS/MS**
Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol
Minister for Finance and Local Government

CC: Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

## Atodiad A
## Bil Deddfau Trethi Cymru etc. (Pŵer i Addasu) - Cyfnod 1

## Argymhellion y Pwyllgor Cyllid

**Argymhelliad 1.** Mae’r Pwyllgor yn argymell bod y Senedd, gan ystyried yr argymhellion yn yr adroddiad hwn, yn cytuno ar egwyddorion cyffredinol Bil Deddfau Trethi Cymru etc. (Pŵer i Addasu). Nid yw Peter Fox AS yn cefnogi’r argymhelliad hwn.

Rwy’n ddiolchgar am holl fewnbwn y Pwyllgor Cyllid a’r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad sydd wedi cyfrannu at y broses gadarn o graffu’r Bil. Rwy’n falch eu bod ar y cyfan wedi gallu argymell i’r Senedd bod yr egwyddorion cyffredinol wedi’u cytuno.

**Argymhelliad 2.** Mae’r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru, cyn y ddadl ar egwyddorion cyffredinol y Bil, yn rhoi enghreifftiau o’r amgylchiadau penodol y mae’n rhagweld y bydd y pŵer i wneud rheoliadau yn adran 1(1) yn cael ei ddefnyddio i ddiwygio pob rhan o Ddeddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016 (ac eithrio Rhan 2), Deddf Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru) 2017 a Deddf Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru) 2017.

Yn fy ymateb dyddiedig 22 Ebrill 2022, rwyf wedi rhoi enghreifftiau i’r Pwyllgor ynghylch sut y gallai fod angen diwygio pob Rhan o'r tair Deddf Trethi Cymru gan ddefnyddio'r pŵer i wneud rheoliadau yn y Bil hwn mewn perthynas â phob un o'r pedwar prawf diben.

**Argymhelliad 3.** Mae’r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn adolygu geiriad adran 1(1), er mwyn sicrhau bod y cyfyngiadau a osodir ar Weinidogion Cymru bod unrhyw addasiadau yn ‘angenrheidiol neu’n briodol’ yn ystyrlon, a bod enghreifftiau’n cael eu darparu i ddangos sut mae’r amod hwn yn cyfyngu’n ymarferol ar y pŵer dirprwyedig.

Rwyf wedi amgáu copi o fy ymateb i Gadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad a roddais cyn y ddadl Cyfnod 1 (Argymhelliad 3). Mae hwn yn nodi amgylchiadau lle byddai'r Gweinidog yn cael ei atal rhag defnyddio'r pŵer a gynigir yn adran 1 o'r Bil o ganlyniad i'r prawf "priodol".

**Argymhelliad 4.** Mae’r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn ymrwymo i gynnwys manylion unrhyw ymgynghoriad, neu’n nodi rhesymu manwl dros beidio â gwneud hynny, yn y Memorandwm Esboniadol sy’n cyd-fynd ag unrhyw reoliadau a wneir yn y dyfodol o dan adran 1(1) o’r Bil.

Rwy’n derbyn yr argymhelliad hwn. Byddaf yn sicrhau bod unrhyw Femorandwm Esboniadol sy’n cyd-fynd â rheoliadau a wneir yn y dyfodol o dan adran 1(1) o’r Bil yn nodi manylion unrhyw ymgynghoriad, neu’n nodi’r rhesymau manwl dros beidio â gwneud hynny.

**Argymhelliad 5.** Mae’r Pwyllgor yn argymell diwygio’r Bil fel bod effaith adran 2(1)(c), mewn perthynas â rheoliadau a wneir at y diben a nodir yn adran 1(1)(c), wedi’i chyfyngu i ddim cynharach na dyddiad effeithiol y newid i’r dreth ragflaenol y DU.

**Argymhelliad 6.** Mae’r Pwyllgor am argymell diwygio’r Bil:
▪ fel bod effaith adran 2(1)(c), mewn perthynas â rheoliadau a wneir ar gyfer unrhyw un o’r dibenion a nodir yn adran 1(1)(b) a (d), wedi ei chyfyngu i ddim cynharach na dyddiad cyhoeddiad;

▪ pennu mai dyddiad y cyhoeddiad hwnnw yw’r dyddiad y mae Gweinidogion Cymru yn gosod datganiad ysgrifenedig gerbron y Senedd;

▪ ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gyflwyno datganiad llafar yn y Cyfarfod Llawn cyntaf ar ôl i gyhoeddiad gael ei wneud.

Rwy’n derbyn Argymhelliad 5 a 6 mewn egwyddor. Rwyf eisoes wedi cyflwyno gwelliant gan y Llywodraeth i gyfyngu ar y gallu i ddeddfu'n ôl-weithredol yn ôl dim ond cyn belled â dyddiad cyhoeddiad gan Lywodraeth Cymru mewn achosion lle gallai newid effeithio'n negyddol ar drethdalwyr (pan ddaw treth yn daladwy neu y daw swm uwch o dreth yn daladwy).

**Argymhelliad 7.** Mae’r Pwyllgor yn argymell diwygio’r Bil i’w gwneud yn ofynnol i’r datganiad polisi ar ddefnyddio’r pŵer i wneud rheoliadau gydag effaith ôl-weithredol yn adran 3 gael ei osod gerbron y Senedd a’i gymeradwyo, gan gynnwys unrhyw newidiadau dilynol. Ni ddylid gwneud y cynnig i gymeradwyo’r datganiad polisi (ac unrhyw newidiadau dilynol) hyd nes y bydd pwyllgor cyfrifol wedi cyflwyno adroddiad.

Mae'r Datganiad yn ddatganiad *polisi* ar sut y bydd Gweinidogion Cymru yn defnyddio'r pŵer i wneud deddfwriaeth ôl-weithredol a gynigir gan y Bil, ac mae'r Bil ei hun yn pennu'r cyfyngiadau ar ddefnyddio'r pŵer hwnnw. Bwriad y Datganiad yw rhoi gwybod i'r cyhoedd ac i'r Senedd sut y bydd y pŵer i wneud rheoliadau gydag effaith ôl-weithredol yn cael ei ddefnyddio. Fodd bynnag, bydd Llywodraeth Cymru yn casglu barn rhanddeiliaid perthnasol ar y newidiadau cyn cyhoeddi Datganiad diwygiedig. Bydd hynny’n cynnwys y Pwyllgor hwn, yn amlwg ac yn bennaf. Felly, nid wyf yn gweld rôl statudol i'r Senedd o ran cymeradwyo a diwygio'r datganiad hwn.

Bydd fy swyddogion yn parhau i weithio gyda rhanddeiliaid allanol i sicrhau bod y Datganiad yn glir ac yn bodloni'r bwriad o egluro pryd a sut y bydd Gweinidogion Cymru yn defnyddio'r pŵer gydag effaith ôl-weithredol. Byddaf hefyd yn rhannu'r Datganiad â’r Pwyllgor cyn iddo gael ei gyhoeddi er mwyn casglu eich barn hefyd.

Yn ogystal, rwy'n gobeithio bod y gwelliant yr wyf bellach wedi'i gyflwyno i gyfyngu ar y gallu i ddeddfu'n ôl-weithredol yn ôl hyd at ddyddiad cyhoeddiad gan Lywodraeth Cymru yn unig, mewn achosion lle mae newid yn creu neu'n cynyddu atebolrwydd treth, yn rhoi sicrwydd priodol i'r Pwyllgor.

**Argymhelliad 8.** Mae’r Pwyllgor yn argymell bod y Gweinidog yn ystyried diwygio’r Bil i gynnwys isafswm cyfnod o amser ar gyfer gwaith craffu gan y Senedd ar reoliadau a wneir o dan adran 1(1).

Rwy’n derbyn yr argymhelliad hwn. Byddaf yn cyflwyno gwelliant yng Nghyfnod 2 i gyflwyno isafswm cyfnod o 28 diwrnod o fewn uchafswm cyfnod o 60 diwrnod y cyfeirir ato yn adran 4(5) o’r Bil. Mae hyn er mwyn sicrhau na ellir pleidleisio ar y rheoliadau gweithdrefn gadarnhaol a wneir o dan y Bil hwn cyn bod y cyfnod hwnnw o 28 diwrnod wedi mynd heibio.

**Argymhelliad 9.** Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylid diwygio'r Bil i osod dyletswydd ar Lywodraeth Cymru i gynnal adolygiad o weithrediad ac effaith y Ddeddf:

▪ ddwy flynedd ar ôl cael y Cydsyniad Brenhinol, a

▪ phob pum mlynedd ar ôl cael y Cydsyniad Brenhinol, gyda chanfyddiadau'r adolygiadau hynny i'w gosod gerbron y Senedd

**Argymhelliad 10.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod y Bil yn cael ei ddiwygio i nodi bod yr adolygiad statudol o weithrediad ac effaith y Ddeddf gan Lywodraeth Cymru yn cynnwys asesiad o'r canlynol:

▪natur ac effeithiolrwydd unrhyw reoliadau a wneir o dan adran 1(1) o'r Ddeddf;

▪ effaith y Ddeddf ar drethdalwyr a threthi datganoledig Cymru;

▪ priodoldeb parhaus y pwerau i wneud rheoliadau a roddir i Weinidogion Cymru gan y Ddeddf a Deddfau Trethi Cymru; a

▪ dulliau deddfwriaethol amgen ar gyfer gwneud newidiadau i Ddeddfau Trethi Cymru a rheoliadau a wneir oddi tanynt

Rwy'n falch o dderbyn Argymhellion 9 a 10 mewn egwyddor. Mae'r rhain yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gynnal adolygiad o weithrediad ac effaith y Ddeddf.

Ystyriaf mai'r amser mwyaf priodol ar gyfer adrodd ar adolygiad o'r fath fyddai ar ddechrau tymor nesaf y Senedd. Bydd hyn yn gymorth i lywio penderfyniadau'r Senedd nesaf ynghylch y camau nesaf sydd fwyaf priodol. Nid wyf yn ystyried bod adolygiad treigl yn angenrheidiol gan fy mod hefyd yn bwriadu cyflwyno darpariaeth cymal machlud ar gyfer y Bil hwn. Bydd hyn yn atal bod unrhyw reoliadau pellach yn cael eu gwneud o dan y Bil, pum mlynedd ar ôl y Cydsyniad Brenhinol. Os yw Pwyllgorau yn dymuno cynnal adolygiad o'r Bil eu hunain ar unrhyw adeg cyn hynny, mae hynny, wrth gwrs, yn fater iddyn nhw.

Nid wyf yn rhagweld y byddai cwmpas yr adolygiad hwn yn cynnwys ystyried dulliau deddfwriaethol amgen ar gyfer gwneud newidiadau i Ddeddfau Trethi Cymru – bydd hyn yn cael ei ddatblygu ar wahân. Nod yr adolygiad yw ystyried effeithiolrwydd y Bil hwn.

**Argymhelliad 11.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn ymrwymo i ddarparu Asesiadau Effaith Rheoleiddiol llawn a chadarn ar gyfer unrhyw reoliadau a wneir yn y dyfodol o dan y pŵer a gynigir yn y Bil.

Rwy'n derbyn yr argymhelliad hwn. Byddaf yn sicrhau bod Asesiadau Effaith Rheoleiddiol llawn a chadarn yn cael eu darparu ar gyfer unrhyw reoliadau a wneir yn y dyfodol gan ddefnyddio'r pŵer yn y Bil hwn.